## Adolygiad Diwedd Tymor: Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd Rhagfyr 2025

Mae'r Bwrdd yn falch o gyhoeddi ei Adroddiad Diwedd Tymor yn unol â'i ymrwymiad i lywodraethu da a thryloywder. Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r adroddiad ac wedi derbyn yr adroddiad a'r argymhellion yn llawn.

Comisiynodd y Bwrdd adolygiad diwedd tymor annibynnol i edrych ar ffyrdd o weithio'r Bwrdd, i nodi unrhyw wersi ar gyfer y Bwrdd newydd, a ddechreuodd ym mis Medi 2025, ac i gasglu tystiolaeth i adolygu cynnydd y Bwrdd yn erbyn ei amcanion strategol.

Daeth yr adolygiad annibynnol i'r casgliad bod y Bwrdd:

*'...yn Fwrdd sy'n gweithredu'n dda ac yn effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun ei faint a'i adnoddau cyfyngedig...*

*[a bod y] fframwaith llywodraethu yn gymesur, yn addas at y diben, ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau o ansawdd da.'*

Mae'r adolygiad wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod ei ddull o ymdrin â busnes a llywodraethu yn effeithiol. Mae hefyd wedi nodi sawl thema i'w hystyried a 13 argymhelliad i gryfhau ymhellach drefniadau llywodraethu'r Bwrdd a'i gynllunio strategol a'i flaenoriaethau ar gyfer tymor y Bwrdd newydd.

Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith bod perthnasau'r Bwrdd â rhanddeiliaid allweddol yn gadarnhaol ac yn adeiladol ar y cyfan. Mae'r Bwrdd yn nodi'r adborth, yn benodol oddi wrth Aelodau a Staff Cymorth, ynglŷn â meithrin ymhellach ymddiriedaeth, ymgynghori, a hygyrchedd a chyfranogiad grwpiau cynrychioliadol. Bydd y Bwrdd newydd yn ystyried y themâu a nodwyd a bydd yn ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Aelodau a Staff Cymorth, i ddatblygu strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid y Bwrdd ar gyfer y Seithfed Senedd.

Bydd y Bwrdd hefyd yn ymgysylltu â Chomisiwn y Senedd i geisio meithrin ymhellach y berthynas waith gydweithredol ac adeiladol, i archwilio'r materion hynny sydd o ddiddordeb cyffredin, ac i helpu i hysbysu'r Bwrdd am effeithiolrwydd penderfyniadau diweddar ar y Penderfyniad, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau sylweddol a gyflwynwyd ar gyfer y Seithfed Senedd.

Bydd y Bwrdd yn ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion fel rhan o Strategaeth y Bwrdd newydd ar gyfer 2026-30 a'i raglen waith ar gyfer 2026-27, ac adolygiad o'i Egwyddorion Llywodraethu a Chanllawiau ar Gynnal Busnes, gan adrodd ar gynnydd drwy ei adroddiad blynyddol.

Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol gan FinWell Coaching & Consulting Ltd, a geisiodd farn aelodau'r Bwrdd yn ogystal â rhanddeiliaid gan gynnwys Comisiwn y Senedd a chynrychiolwyr Aelodau a staff. Fel rhan o'r adolygiad, ac mewn ymateb i'r adroddiad,

mae Finwell hefyd wedi rhoi cyngor a chymorth wedi’i hwyluso i'r Bwrdd i ystyried ei ddull o ymdrin â busnes, ffyrdd o weithio a’r gwaith o ddatblygu strategaeth newydd y Bwrdd.